

# Gwneud ei orau dros Iesu Grist

Dyfalbarhad / gweld cyfle / dewrder

**William Carey: 1761-1834**

“Mae Columbus yn dod!” gwaedda’r bechgyn efo’i gilydd. “I ble rwyd ti am fynd â ni heddiw?” gofynnodd un o’r plant. Ie, ‘Columbus’ oedd blas enw’r plant ar William Carey. Byddai wrth ei fodd yn gwneud mapiau o’r byd. Dychmygai ei fod yn mynd i wlad nad oedd dyn erioed wedi bod ynddi.

Pan adawodd yr ysgol a mynd yn brentis i grydd, byddai’n gwneud yr un peth yn ei oriau hamdden. Dychmygai deithio i bellafoedd byd ac yna dechreuodd, gyda phrentis arall, ddysgu ieithoedd fel Hebraeg a Groeg.

Un noson, perswadiodd ei gyfaill, John Warr, ef i fynd gydag ef i addoldy’r Bedyddwyr. Yn ystod y bregeth clywodd lais yn dweud wrtho am fynd i wlad arall i sôn am Iesu Grist. Rhoddodd ei holl egni yn y gwaith. Roedd eisoes yn hyddysg yn ieithoedd y Beibl. Agorodd weithdy’r crydd yn yr ardal ac agorodd ysgol yn yr un ardal. Yn ogystal â thrwsio esgidiau, roedd hefyd yn bregethwr ac yn athro. Fe’i hordeiniwyd yn weinidog gyda’r Bedyddwyr. Soniai yn gyson wrth ei gyd-weithwyr am ei ddyhead i fynd i rannau eraill o’r byd. Ond gwneud hwyl am ei ben yr oedd y mwyafrif ohonyn nhw.

“I ble mae’r crydd am fynd â ni heddiw?” oedd cwestiwn un ohonyn nhw’n ddigon gwawdlyd.

“Ydi’r daith wedi ei chynllunio a’r map yn barod?” gofynnodd un arall.

“Dyna ddigon o wamalu,” meddai un arall, “gwell fyddai i ti aros yn y wlad yma. Mae digon o eisiau gweinidogion yn y wlad hon.”

Er cymaint oedd y gwatwar, roedd Carey yn benderfynol ei fod am fentro i wledydd eraill i sôn am Iesu Grist.

“Cofiwch chi,” meddai wrth ei gyd-weinidogion, “beth oedd neges olaf Iesu. Rwy’n siŵr eich bod chi’n cofio ei eiriau, ‘Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o’r holl genhedloedd gan eu bedyddio hwy yn enw’r Tad, a’r Mab a’r Ysbryd Glân.’”

Dechreuodd amryw ohonyn nhw weld bod Carey yn benderfynol o gael y maen i’r wal. Fe ddaethon nhw at ei gilydd i sefydlu Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr. Cynigiodd ef ei hun

fynd yn genhadwr i India. Dechreuodd ddysgu Bengali, sef un o ieithoedd India. Credai'n sicr mai'r unig ffordd i addysgu a phregethu oedd iddo ef ei hun yn gyntaf ddysgu eu hiaith. Aeth meddyg o'r ardal, oedd yn medru'r iaith Bengali, gydag ef a'i wraig a'i deulu ar daith a gymerodd bum mis.

Ar ôl glanio yn Calcutta, dechreuodd Carey a'r teulu ffermio er mwyn ennill arian i gadw'i deulu. Roedd yn gyfle da i ddod i adnabod y brodorion. Yn ystod y cyfnod hwn wynebodd y teulu anawsterau mawr. Bu farw un o'r meibion a bu'r teulu i gyd yn dioddef o sawl math o afiechyd. O dro i dro, teimlai Carey yn ddigalon iawn. Dywedodd yn ystod y cyfnod anodd hwn, "Os blodeua'r Efengyl yma, bydd y diffeithwch yn wir wedi dod yn faes toreithiog."

Ond daliodd ati. Aeth ymlaen i gyfieithu'r Testament Newydd i iaith y brodorion. Ymhen rhai blynyddoedd, roedd rhannau o'r Beibl wedi ymddangos mewn 44 o ieithoedd.

O dipyn i beth, daeth mwy a mwy o genhadon i India a sefydlwyd Coleg Cristnogol yno. Yn raddol, gwelodd Carey ei waith yn araf ledaenu a'r adnod oedd yn nod iddo drwy ei oes yn dechrau dod yn wir. Ar dabled goffa i Carey mae'r geiriau hyn:

"Disgwyliwch bethau mawr gan Dduw,  
Mentrwch bethau mawr dros Dduw."



"Ewch gan hynny a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd."

Mathew 28:19



O Dduw,  
mi fydda i'n teimlo weithiau na fedra i wneud dim.  
Dydw i ddim yn cael hwyl ar y gwersi yn yr ysgol  
na gwneud dim yn iawn yng ngolwg neb.  
Helpa fi i ddal ati i wneud fy ngorau.  
Dyna i gyd.  
Amen.



A ddylid mynd i rannau eraill o'r byd i sôn am Iesu Grist?